# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| **Adran:** | Ysgol Gynradd |
| **SWYDD:** | Cynorthwyydd Goruchwylio |
| **GRADDFA'R SWYDD:** | GR01 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Pennaeth |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Yn gyfrifol am oruchwylio disgyblion yn y neuadd fwyta, y maes chwarae ac eiddo'r ysgol.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cynorthwyo wrth oruchwylio plant ym mhob rhan o'r ysgol a'i thiroedd, er mwyn dilyn rheoliadau Iechyd a Diogelwch a gorfodi disgyblaeth yr ysgol. Cynorthwyo yn y cyfrifoldeb am ddiogelwch ac ymddygiad da disgyblion yn ystod yr awr ginio.

- Ymdrin â mân broblemau, damweiniau a salwch lle y bo angen, a rhoi gwybod am unrhyw achosion difrifol i'r Pennaeth neu'r athro lle y bo'n briodol.

- Goruchwylio disgyblion mewn gemau ar y maes chwarae, a mynd ati i'w cynnwys, yn ogystal â hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymhlith disgyblion yn unol â safonau ymddygiad yn yr ysgol.

- Hebrwng disgyblion i'r ardal fwyta.

- Goruchwylio plant sy'n bwyta prydau bwyd a phecynnau bwyd.

- Goruchwylio ciwiau a threfniadau eistedd, a helpu gyda dosbarthu prydau yn yr ardal fwyta, gan sicrhau bod gollyngiadau'n cael eu glanhau a bod sbwriel yn cael ei dynnu o'r byrddau fel y bo angen.

- Rhoi rhywfaint o hyfforddiant cymdeithasol i'r plant o ran moesgarwch wrth y bwrdd.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm Asesu Diogelu Plant.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch graddfa.

**Swyddfa Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Cynorthwyydd Goruchwylio

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (√).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso/Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Nid oes cymwysterau'n angenrheidiol. Fodd bynnag, byddai cymhwyster cymorth cyntaf yn fantais.<br>• Parodrwydd i gymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu a hyfforddiant | | Cyfweliad, ffurflen gais a geirdaon. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad blaenorol o weithio gyda phlant ifanc neu ofalu amdanynt.<br>• Profiad blaenorol o reoli ymddygiad plant ac annog chwarae ymhlith plant.<br>• Gwybodaeth sylfaenol am gymorth cyntaf. | | Cyfweliad, ffurflen gais a geirdaon. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Y gallu i weithio'n adeiladol fel rhan o dîm ac ar sail unigol.<br>• Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau.<br>• Sgiliau cyfathrebu da.<br>• Peidio â chynhyrfu mewn argyfwng.<br>• Y gallu i gyfathrebu'n dda â phlant a staff. | | Cyfweliad, ffurflen gais a geirdaon.<br><br>Cyfweliad, ffurflen gais a geirdaon. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso/Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Cychwyn gemau a gweithgareddau sy'n briodol i oedran y plant.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |